



2.00pm, Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021
Cyfarfod Rhithwir

COFNODION

| Yn bresennol | |
|-------------------------------------|---|
| Enw | Corff/mudiad |
| Y Cynghorydd Emlyn Dole (Cadeirydd) | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Prif Arolygydd Stuart Bell | Heddlu Dyfed-Powys |
| Carys Morgans | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau |
| Ruth Mullen | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kevin Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Anna Bird | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Andrew Cornish | Coleg Sir Gâr |
| Wyn Morris | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Andrew Charles | Llywodraeth Cymru |

| Hefyd yn bresennol | |
|--------------------|--|
| Enw | Corff/mudiad |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kate Harrop | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Wendy Phillips | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mandy Rogers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lesley Rees | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Carys Huntly | Cyngor Sir Ceredigion |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Emlyn Dole, yr Is-gadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir a mynegodd ddiolch arbennig i Ruth Mullen a Kevin Jones a oedd yn mynychu eu cyfarfod diwethaf fel aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| Ymddiheuriadau | |
|----------------|-------------------------------------|
| Enw | Corff/mudiad |
| Barry Liles | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Maria Battle | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| | |
|------------------------------|--|
| Ros Jervis | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Huw Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Uwch-arolygydd Gary Phillips | Heddlu Dyfed-Powys |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |
| Christine Harley | Y Gwasanaeth Prawf |
| Kelvin Barlow | Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru |
| Catherine Mealing-Jones | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |

2. Aseiad Llesiant Drafft Sir Gaerfyrddin

Rhoddwyd trosolwg o'r Aseiad Llesiant Drafft gan bwysleisio'r meysydd allweddol a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

- Mae'n warthus fod traean o blant yn byw mewn tldi, ac ar ben hynny, mae costau byw yn cynyddu, gan roi mwy o straen ar deuluoedd. Mae cysylltiadau rhwng plant sy'n byw mewn tldi a gordewdra. Bydd angen ystyried problemau tldi wrth fynd i'r afael â gordewdra, lefelau gweithgaredd, ffitrwydd corfforol a llesiant plant. Cytunwyd i osod costau byw ac effaith tldi yn goch yn y matrices.
- Mae nifer y rhieni iaith gyntaf Saesneg a fyddai'n cefnogi eu plant trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn galonogol ond mae angen gwneud mwy yn enwedig gan fod mewnlifiad o bobl i ardaloedd gwledig.
- Mae angen ennill cefnogaeth pobl ifanc trwy fynd i'r afael â'u pryderon am COVID-19, newid yn yr hinsawdd, swyddi, tldi a'r amgylchedd.
- Pryd y bydd y data'n gwahaniaethu rhwng cynnydd cyffredinol a chynnydd sy'n gysylltiedig â Covid yn achos plant sy'n cael eu categorio fel 'plant mewn angen' gan y Gwasanaethau Cymdeithasol?
- Roedd angen eglurhad pellach ar y data ar ddigartrefedd a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Mae'r perygl o lifogydd sy'n effeithio ar eiddo wedi cynyddu yn ôl mapiau Tan 15 newydd. Angen egluro ai preswylfeydd neu fusnesau yw'r eiddo y cyfeirir atynt.
- Mae data ar dipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gyfrif yn wahanol i lawer o awdurdodau eraill gan fod bagiau sy'n cael eu gadael wrth ymyl bin sbwriel yn cael eu cynnwys, er enghraifft.
- Mae mudo i'r sir yn effeithio ar brisiau eiddo a allai effeithio ar y Gymraeg.
- Mae mynd i'r afael â gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn her oherwydd nifer y sefydliadau sydd â chyfrifoldebau amrywiol.
- Ni chyfeirir at ofalwyr o dan y themâu 'Oedolion' na 'Heneiddio'n Dda'. Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi gweld cynnydd o 64% yn yr unigolion sy'n rhoi gwybod eu bod yn ofalwyr di-dâl.
- Bydd ffosffadau a nitradau mewn dŵr yn cael effaith uniongyrchol ar dlodi gan y bydd cartrefi yn gorfod talu biliau dŵr uwch am drin carthffosiaeth a glanhau dŵr yfed.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y dewis o'r 'Themâu Allweddol' gan eu bod yn cynnwys cymysgedd o faterion a chyfleoedd. Dangosir sbectwm eang o sut yr aseswyd llesiant yn y sir, a'r gobaith yw gweithredu, mewn partneriaeth, ynghylch pob thema a nodwyd.
- Mae mater capasiti ynni yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy yn ogystal ag isadeiledd y grid. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus yn ei ymgais i fod yn Garbon Sero-net, ond bydd heriau hefyd yn wynebu diwydiant a busnesau newydd yn y sir. Mae capasiti'r grid ar ei h ôl hi cyn belled ag y mae'r gallu i gynhyrchu mwy o egni adnewyddadwy yn y sir i fod yn fwy cynaliadwy yn y cwestiwn. Mae Gwasanaeth Ynni Cymru yn gwneud rhywfaint o waith yn ymwneud â modelau perchentyaeth adnewyddadwy.

- Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ar hyn o bryd, hefyd yn ymgynghori ar ei Gynllun Heddlu a Throseddu a bydd yn hyrwyddo hyn drwy fideos byr 1-2 funud a fydd yn cael eu gosod ar gyfryngau cymdeithasol. Gwnaed cynnig i gynorthwyo yn y gwaith o hyrwyddo'r ymgynghoriad llesiant.
- Er bod yr adroddiad mewn fformat darllenadwy, byddai crynodeb hawdd ei ddarllen yn fuddiol.
- Er yr ymgynghorwyd ag ysgolion a phobl ifanc wrth ddatblygu'r Asesiad Llesiant drafft, mae angen ymgysylltu'n barhaus â'r cyhoedd a grwpiau cymunedol eraill.
- Byddai'n dda cael cyfran helaeth o ymatebion yn seiliedig ar broffil y boblogaeth a nodweddion gwarchoddedig.

Cymeradwywyd yr argymhellion, a diolchodd Emlyn Dole i bawb a oedd yn ymwneud â datblygu'r Asesiad Llesiant drafft.

| CAMAU GWEITHREDU | |
|--|-------------------|
| Aildosbarthu costau byw ac effaith tlodi i fod yn goch ar yr Asesiad Llesiant drafft | Tîm Cymorth y BGC |
| Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r Asesiad Llesiant drafft gan gynnwys sgorio erbyn diwedd 26 Tachwedd | Pawb |
| Darparu astudiaethau achos o ymyriadau sydd wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r heriau a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant drafft erbyn 22 Rhagfyr | Pawb |
| Datblygu crynodeb hawdd ei ddarllen o'r Asesiad Llesiant drafft | Tîm Cymorth y BGC |
| Ymateb i ymgynghoriad Blaenoriaethau a Chyllid Plismona y Comisiynydd Heddlu a Throseddu 2022/23 - dyddiad cau dydd Mawrth 30 Tachwedd | Pawb |

3. Cofnodion a Materion yn Codi

29 Medi 2021

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

4. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin - y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cynllun Gwaith

Rhoddwyd trosolwg o'r wybodaeth ddiweddaraf fel sydd i'w weld mewn print bras yn y ddogfen hon.

Sicrhawyd rhagor o gyllid gan Gronfa Her Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith caffael bwyd. Mae dwy elfen ynghlwm wrth y prosiect - gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu astudiaeth ddichonoldeb ynghylch darparu bwyd ar gyfer prydau bwyd i gleifion, ac edrych ar ddulliau posibl o gyflenwi bwyd lleol yn uniongyrchol i ysgolion. Mae'r cyhoeddiad diweddar ynglŷn â phrydau ysgol am ddim yn newid y sefyllfa rhywfaint, ond mae'n rhoi cyfle i drafod y mater ar lefel genedlaethol ac yn lleol.

5. Unrhyw Fater Arall

Nid chodwyd unrhyw fater arall.